# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2013

## 09.00 - 10.30, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)**
**Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**
**Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)**
**Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)**
**Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau)**
**Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)**

**1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

**1.1 Croesawyd Helena Feltham (Cynghorydd Annibynnol) a oedd yn bresennol i arsylwi cyfarfod y Bwrdd ac i ddarparu golwg ar y trafodaethau o'r tu allan.**

**1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Price (y Pennaeth Cyfathrebu dros Dro).**

**1.3 Nid oedd buddiannau i'w datgan.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Cytunodd Chris Warner i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.**

3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2013

3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

4.0 Cefnogaeth i staff y Cynulliad o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chynyddu eu cynrychiolaeth yn y gweithlu

4.1 Cyflwynodd Holly Pembridge (y Rheolwr Cydraddoldeb) adroddiad ar sut y gallai'r Cynulliad gynyddu cynrychiolaeth pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu, a chynorthwyo i gadw a datblygu'r staff hynny yn well. Mae hyn yn unol â nodau strategol y Cynulliad, ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb y Comisiwn.

4.2 Er mwyn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn a datblygu cynllun gweithredu, cynhaliwyd adolygiad desg i ymchwilio i arferion gorau, a gofynnwyd am farn unigolion a sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys rhai y mae modd eu cymharu â'r Cynulliad, ynghyd â phobl o'r Rhwydwaith Staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

4.3 Diolchodd Aelodau'r Bwrdd i Holly am baratoi'r wybodaeth a gweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol i ddod o hyd i atebion. Awgrymodd y Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd ymchwilio i'r posibilrwydd o osod rhai targedau a allai fesur effaith y cynllun gweithredu'n rhesymol, gan gofio maint y sefydliad, a'i fod yn rhy fach ar gyfer defnyddio cwotâu yn ystyrlon, fel:

- cynnydd o ran ceisiadau am swyddi;
- faint o sefydliadau sy'n cael eu targedu wrth hyrwyddo cyflogaeth yn y Cynulliad;
- y secondiadau mewnol y mae staff yn manteisio arnynt, a faint o bobl sy'n cymryd cyfleoedd i ddysgu a datblygu;

4.4 Awgrymwyd hefyd, ynghyd â mentoriaid Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, efallai y byddai uwch staff yn darparu gwasanaeth mentora i staff presennol o grwpiau pobl dduon a

lleiafrifoedd ethnig, a hefyd, efallai y byddai Aelodau a phleidiau yn cyfrannu fel modelau rôl, mentoriaid a chyflogwyr.

4.5 Bu'r Bwrdd yn trafod ffyrdd o fynd i'r afael â'r ffaith nad yw'r sefydliad yn denu pobl ar y lefel uchaf nac ar gyfer swyddi arbenigol. Pan fyddai swyddi gwag yn y meysydd swyddogaethol, lle y gallai cronfa fwy amrywiol o bobl fod ar gael, mae'n bosibl y gellid canolbwyntio ar hysbysebu i ddenu'r farchnad honno. Ystyriwyd bod yr ymgyrch recriwtio bresennol i'r maes TG yn gyfle da i hysbysebu i grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i'r eithaf, a defnyddio'r ymgyrch fel peilot i brofi'r cynllun gweithredu.

4.6 Cytunodd Aelodau'r Bwrdd â'r argymhelliad i benodi aelod penodol o staff am gyfnod o secondiad a fyddai'n rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r cynllun gweithredu arfaethedig.

4.7 Camau i'w cymryd:

- Holly Pembridge a Mike Snook i ail-asesu lefel y swydd sydd ei hangen i gyflawni'r amcanion, a chyflwyno'r asesiad i'r Bwrdd Rheoli wedyn, i gael penderfyniad arno; trafod sut i integreiddio'r rôl i'r strategaeth Adnoddau Dynol er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith ar ddiwedd cyfnod y secondiad.

- Mike Snook a Steven O'Donoghue i gynnwys y mater o gydraddoldeb i bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn eu gwaith presennol ar gymorth strategol Adnoddau Dynol i'r sefydliad.

- Holly Pembridge i lunio cyfres o dargedau (fel rhan o'r gwaith o asesu rhinweddau dull gweithredu o'r fath) sy'n uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy, i'w hystyried gan y Bwrdd Rheoli.

- Ystyried ffyrdd i hysbysebion gael eu targedu, i ddenu ymgeiswyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; Holly Pembridge i gael gair â Jan Koziel ynghylch ble y bydd y sefydliad yn defnyddio contractwyr, yn benodol, wrth ddefnyddio asiantaethau recriwtio.

- Y mater i gael ei ychwanegu at agenda'r Bwrdd Rheoli i'w adolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

5.0 Cynllun Gweithredu o ran Arolwg Aelodau'r Cynulliad

5.1 Bu'r Bwrdd Rheoli yn adolygu'r cynllun gweithredu a baratowyd yn dilyn Arolwg Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd y Bwrdd bod ar y cynllun gweithredu angen amserlenni a thargedau mwy eglur, i'w wneud yn gadarnach ac yn fwy mesuradwy.

5.2 Nodwyd y dylai'r cwestiynau ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad adlewyrchu eu rolau, ac y dylid adolygu'r cwestiynau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o bosibl, i sicrhau bod eu ffocws yn bendant a'u bod yn adlewyrchu'r dangosyddion perfformiad allweddol presennol ar yr un pryd.

5.3 Camau i'w cymryd:

- Y Bwrdd Rheoli i roi adborth i Dave Tosh ar dargedau ac amserlenni cyraeddadwy mewn perthynas â'r camau a nodwyd.

- Dave Tosh a John Chick i weithio gyda Kathryn Potter i baratoi cynnig ar gyfer cwestiynau'r arolwg nesaf cyn diwedd tymor yr hydref. Dylai aelodau'r Bwrdd Rheoli gynnwys cwestiynau y maent wedi'u cael yn eu meysydd hwy gan Aelodau'r Cynulliad.

- Dave Tosh i baratoi crynodeb diweddar ar gyfer ei gynnwys ym mwletin nesaf y Prif Weithredwr i'r Aelodau.

6.0 Cynllun Marcio Amddiffynnol

6.1 Cafodd y Bwrdd Rheoli bapur ar y cynllun marcio amddiffynnol, a oedd yn sicrhau y byddai camau amddiffynnol priodol a nodau diogelwch yn cael eu defnyddio â gwybodaeth y Cynulliad.

6.2 Rhagwelwyd y byddai'r camau presennol yn cael eu hadolygu yn unol â'r adolygiad o gynllun Llywodraeth Ei Mawrhydi, a oedd i gael ei gynnal ym mis Ebrill 2013. Fodd bynnag, gan fod hwn wedi'i ohirio tan fis Ebrill 2014, roedd yn bwysig ein

bod yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun presennol ac yn annog pobl i'w ddefnyddio yn y sefydliad drwyddo draw.

6.3 Roedd aelodau'r Bwrdd Rheoli yn pryderu fod y derminoleg a'r egwyddorion yn ddryslyd, ac felly, eu bod yn llai tebygol o gael eu defnyddio'n gyson. Awgrymwyd dull gweithredu symlach o ran y nodau diogelwch, ac y dylid defnyddio disgrifydd i nodi wrth y sawl sy'n cael y wybodaeth, sut i'w thrin. Byddai hyn hefyd yn rhoi eglurder i bobl y tu allan i'r sefydliad nad ydynt yn gyfarwydd â therminoleg y Cynulliad.

6.4 Camau i'w cymryd: Dave Tosh ac Alison Rutherford (Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth) i:

- adolygu'r marciau a'r defnydd o ddisgrifyddion er mwyn ceisio symleiddio'r dull gweithredu presennol;
- cynnwys enghreifftiau yn y canllawiau o sut y caiff y cynllun ei ddefnyddio, i helpu i egluro sut i gymhwyso'r marciau ac i sicrhau bod cysondeb o ran eu deall a'u defnyddio; cadarnhau bod cyngor eglur ar anfon gwybodaeth, fel papurau briffio Pwyllgorau, i Aelodau.
- cysylltu â Sue Morgan (Cynghorydd Cyfreithiol) ar lunio cynnig;
- cyflwyno'r mater i gael ei adolygu gan gyfarfod o'r Bwrdd Rheoli yn y dyfodol, fel bod modd i'r Bwrdd gyfleu'r neges i'w timau.

7.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am Reoli Cyllid

7.1 Bu'r tîm Cyllid yn adolygu rhagolygon ar gyfer y meysydd gwasanaeth, a chyfrifiadau dibrisiant, ac roedd yr ymarferiad hwn wedi rhyddhau tanwariant cyffredinol a ragwelwyd o £400,000. O'r arian hwn, roedd £100,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer y prosiect i ddiweddaru'r wefan.

7.2 Camau i'w cymryd:

- Dylai cynigion ar gyfer defnyddio'r Gronfa Fuddsoddi gael eu hanfon at Buddug Saer (Swyddog y Rhaglen) cyn gynted â phosibl. Dylid rhoi cyfnod o rybudd mor hir â phosibl ynghylch unrhyw gaffael a ddisgwylir, ond nad yw wedi'i

wneud eto, oherwydd y llwyth gwaith sylweddol sydd gan y tîm yn sgîl y prosiect TGCh.

- Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd roi sylw i achosion o unrhyw orwariant yn eu meysydd, a cheisio rhagweld pa mor debygol yr oedd y gorwariant hwnnw eto. Hefyd, dylid meddwl am ffyrdd ychwanegol o gyrraedd y targed Gwerth am Arian.

8.0 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft

8.1 Soniwyd wrth y Bwrdd am argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn. Byddai'r Comisiwn yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod nesaf, ac yn dilyn hynny, byddai ymateb yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor. Roedd mân newidiadau i'w gwneud i'r gyllideb, ac ar ôl gwneud y newidiadau hyn byddai'r gyllideb yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd.

9.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Buddsoddi

9.1 Cyfarfu'r Bwrdd Buddsoddi ar 14 Hydref, ac yng ngoleuni'r rhagolygon ariannol newydd, cadarnhawyd yr arian sydd ar gael ar gyfer y prosiect i ddiweddaru'r wefan.

9.2 Rhoddwyd diweddariad manwl i'r Bwrdd Buddsoddi am y prosiect pontio TGCh, a fydd yn parhau tan yr haf y flwyddyn nesaf. Roedd KPMG ar ganol y broses o gael sicrwydd allanol ac roedd y prosiect ar y trywydd iawn. Hefyd rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect i ddiweddaru'r wefan, a chyflwyniad ar Sharepoint, sy'n rhoi llwyfan ar gyfer dod o hyd i atebion technolegol.

9.3 Roedd Jan Koziel yn bresennol yn y cyfarfod i nodi amserlen y contractau ar gyfer y blynyddoedd nesaf er mwyn i'r Bwrdd Buddsoddi benderfynu ble y byddant am ddylanwadu ar y strategaeth gaffael.

Cloi'r cyfarfod

10.0 Unrhyw fater arall

10.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd 2013.